

# Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Iaith Arwyddion Prydain

Mawrth 2022

Ar 15 Mawrth 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried ac adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Iaith Arwyddion Prydain.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 26 Mai 2022.

Ar 22 Mawrth 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad, sef 26 Ebrill 2022.

